# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **ddydd Llun 15 Gorffennaf 2024** yn rhithwir trwy **Zoom.** Dechreuodd y cyfarfod am **09.55 o'r gloch**.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Matt Powell | Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| George Jones | Gwasanaethau Cyfieithu Atebol |
| Lisa Allington | Gwasanaethau Aelodau |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

**2 DATGANIADAU BUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Ni dderbyniwyd unrhyw rybudd o faterion brys.

**4 COFNODION CYFARFOD AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU A GYNHALIWYD AR 15 EBRILL 2024**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2024 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub o 15 Ebrill 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Gan gyfeirio at baragraff 7.5 mewn cysylltiad â'r penodiadau i swyddi rhanbarthol o fewn Undeb y Brigadau Tân (FBU), cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân (PST) fod Terry Ledden a Rebekah Uden wedi'u penodi'n swyddogol yn Gadeirydd Rhanbarthol ac Ysgrifennydd Rhanbarthol yr FBU, yn y drefn honno. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu atynt ar ran Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i'w llongyfarch.

**6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

6.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i roi i'r Aelodau er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn rhinwedd swyddogol eu swyddi rhwng mis Ebrill a Mehefin 2024.

6.2 Ychwanegodd y Cadeirydd ddiweddariad ar lafar bod Ysgrifennydd y Cabinet Julie James, ar 28 Mai 2024, wedi ysgrifennu at bob Arweinydd Awdurdod Lleol i gadarnhau ei bod yn ystyried cynnal adolygiad o drefniadau Llywodraethu ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub ledled Cymru. Gwahoddodd Arweinwyr Awdurdodau Lleol i gyflwyno eu barn ac er mwyn hwyluso hyn, cynhaliodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyfarfod rhithwir ar 28 Mehefin lle gellid rhoi adborth.

6.3 Y consensws cyffredinol oedd bod angen gormod o Aelodau i ffurfio Awdurdod Tân ac y dylid lleihau hyn o'r 28 presennol. Teimlwyd hefyd y gallai penodiadau cyfetholedig fod yn fuddiol, ond y dylai'r rhain gael eu gwneud gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

6.4 Byddai unrhyw drefniadau Llywodraethu newydd yn cael eu treialu yn Ne Cymru i ddechrau ac ni fyddai deddfwriaeth ar gyfer y newidiadau hynny'n digwydd yn ystod tymor presennol y Senedd.

6.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r wybodaeth a ddarperir yn y papur.**

## 7 ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS (ECR)

7.1 Cyflwynodd PSTC Evans bapur yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar y cynnydd sydd wedi ei wneud gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a sefydlwyd mewn ymateb i'r penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023. Pwrpas y grŵp hwn oedd ymchwilio a datblygu opsiwn parhaol newydd ar gyfer darpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru.

7.2 Mynegodd un Aelod rywfaint o bryder ynghylch pwy oedd aelodau'r gweithgor ac a fu digon o gynrychiolaeth o ardaloedd gwledig Gogledd Cymru er mwyn sicrhau tegwch. Gofynnon nhw hefyd am fanylion ynghylch pa ardaloedd a fyddai'n cael eu gwasanaethu'n well a pha orsafoedd fyddai'n cael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau, ac ym mha ffordd.

7.3 Cadarnhawyd gan y RhA Jones y bu cynrychiolaeth o ardaloedd gwledig ar y gweithgor, gan gynnwys Rheolwyr Gwylfa o Aberdyfi a Thywyn, Llanfairfechan a'r tîm gwledig. Roedd llawer o'r aelodau yn ddiffoddwyr tân ar alwad hefyd ac felly roedd ystod eang o brofiad ar draws Gogledd Cymru, ac ar draws systemau dyletswydd amser cyflawn ac ar alwad. Roedd y cyfarfodydd hefyd wedi cael eu cynnal mewn gwahanol leoliadau ar draws Gogledd Cymru.

7.4 Cadarnhaodd y PST mai'r gorsafoedd a gyflwynwyd yn wreiddiol yn yr Adolygiad ECR gwreiddiol fyddai'r rhai mwyaf tebygol o gael eu newid i orsafoedd â staff dydd. Roedd hyn oherwydd bod y modelu'n dangos mai dyma lle byddai'r ymateb gorau yn cael ei dderbyn. Dywedodd ymhellach fod dealltwriaeth llawer ehangach o'r mater wedi codi o'r cyfarfodydd hyn ynghyd â dealltwriaeth ac awydd i weithredu i ddatrys y mater.

7.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo bod Swyddogion yn parhau i weithio gyda staff a chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i symud ymlaen, datblygu a gweithredu modelau ymchwil dau a thri Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, neu amrywiadau arnynt, yn dilyn ymgynghori â staff;**
**ii) cymeradwyo bod y Gwasanaeth yn ymgymryd â'r trefniadau angenrheidiol i wneud y gorsafoedd a nodwyd ar gyfer cyflwyno system dyletswydd staffio dydd yn addas ar gyfer hynny; a**
**iii) gwerthfawrogi ymdrechion a chyfraniad Aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i ddatblygu opsiwn parhaol newydd ar gyfer darpariaeth frys ledled Gogledd Cymru.**

## 8 CYNLLUN DATGARBONEIDDIO'R FFLYD

8.1 Cyflwynodd y PSTC Evans bapur ar Gynllun Datgarboneiddio'r Fflyd (y Cynllun), a oedd yn anelu at amlinellu'r mesurau a'r amserlenni manwl ar gyfer lliniaru'r allyriadau carbon sy'n codi o'n fflyd gerbydau am y cyfnod hyd at 2030.

8.2 Mynegodd un Aelod bryder ynghylch y risgiau o ran y gost o ddefnyddio Olew Llysiau Hydrodrin (HVO) a gofynnodd o ble roedd yr olew yn dod i mewn i'r Wlad. Cadarnhaodd PSTC Evans y byddai'n casglu'r wybodaeth hon ac yn rhoi gwybod i'r Aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

8.3 Holodd Aelod arall am gynaliadwyedd yr HVO a gofynnodd bod y gwasanaeth yn gwneud yn siŵr nad oedd olew palmwydd yn cael ei ddefnyddio wrth ei gynhyrchu. Roeddent hefyd yn holi a fyddai HVO yn ansefydlogi mewn cyfnodau o dywydd oer.

8.4 Cadarnhaodd y PSTC fod HVO yn ddiogel i dymheredd o -10 gradd, ac y byddai pob peiriant yn gwbl gyfnewidiol â disel beth bynnag, ac felly gellid defnyddio hyn fel cynllun wrth gefn pe bai tywydd oer yn creu problemau.

8.5 Roedd yr Aelod yn teimlo y dylid defnyddio hwn fel cynllun peilot ac na ddylid ei gyflwyno ar draws y Gwasanaeth nes y gellid gweld sut roedd y farchnad HVO yn datblygu.

8.6 Gofynnwyd a oedd ceisiadau cynllunio wedi'u gwneud ar gyfer storio'r HVO a chadarnhaodd PSTC Evans eu bod wedi gwneud hynny. Cadarnhaodd PSTC Evans hefyd fod profi'r tanwydd eisoes wedi digwydd o fewn y Gwasanaeth gyda'r offer hyfforddi. Nodwyd mai addasu'r fflyd bresennol oedd y mater mwyaf i'w oresgyn bob amser wrth ddefnyddio tanwydd amgen,

8.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo Cynllun Datgarboneiddio'r Fflyd.**

**9 PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU RHWNG AELODAU/CYFLOGEION**

9.1 Cyflwynodd Matthew Powell, Dirprwy Glerc Monitro, y Protocol diwygiedig ar Gysylltiadau rhwng Aelodau/Cyflogeion a chadarnhaodd mai diben y papur oedd adolygu'r Protocol ar Gysylltiadau rhwng Aelodau/Cyflogeion (y Protocol) i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol.

9.2 Cyfeiriodd un o'r Aelodau at drydydd paragraff eitem 2.6 y protocol, a dywedodd eu bod yn teimlo bod rhai Aelodau wedi anwybyddu'r paragraff hwn mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Teimlent ymhellach ei fod yn broblem nad oedd unrhyw sôn am y berthynas rhwng swyddogion a'r Undebau o fewn y Protocol.

9.3 Cadarnhaodd y Dirprwy Glerc nad oedd y diwygiadau i'r Protocol yn cael eu gwneud er mwyn newid ei gwmpas, ond yn hytrach i grynhoi categori ehangach o weithiwr.

9.4 Ychwanegodd y Clerc ymhellach ei bod yn anochel y byddai'r Aelodau'n dymuno siarad â chriwiau tân lleol mewn perthynas â'r Adolygiad, a bod yr FBU wedi manteisio'n llawn ar eu gallu i gysylltu â'r Aelodau yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw. Nid oedd y Protocol yn ceisio cyfyngu hynny, dim ond gosod safonau ar gyfer arfer da.

9.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) cytuno y dylid mabwysiadu'r Protocol diwygiedig fel rhan o'r Cyfansoddiad.**

**10 MONITRO PERFFORMIAD: BLWYDDYN ARIANNOL 2023/24**

10.1 Cyflwynodd RhA Jones Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2023/24, a'i diben oedd darparu gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, y perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), ac unrhyw weithgarwch digwyddiadau nodedig arall.

10.2 Gofynnodd un Aelod i'r Awdurdod ddiolch i bob aelod o staff am y gwaith atal ardderchog sy'n cael ei wneud ar draws y Gwasanaeth.

10.3 Mewn cysylltiad â'r cynnydd mewn galwadau ffug yn yr ysbyty, gofynnwyd a oedd posibilrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn llithro gyda'u buddsoddiad mewn systemau atal tân, ac felly'n trosglwyddo'r risg a'r baich ariannol i'r Gwasanaeth. Ymatebodd RhA Jones fod gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth rhwng y Gwasanaeth a'r Bwrdd Iechyd, a'i fod yn hysbys bod gan y Bwrdd gynlluniau i fuddsoddi yn seilwaith eu systemau larwm er mwyn gwella'r sefyllfa.

10.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

## 11 CYNLLUN RHEOLI RISG CYMUNEDOL 2024-2029 A CHYNLLUN GWEITHREDU RHEOLI RISG CYMUNEDOL 2024-2025

11.1 Cyflwynodd RhA Jones y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) 2024-2029 a'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP) 2024-2025 i'r Aelodau. Roedd pwrpas y papur hwn yn ddeublyg; rhoi trosolwg o'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar CRMP 2024-2029, CRMIP 2024-2025 a'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb cysylltiedig; a cheisio cymeradwyaeth i fersiwn derfynol y dogfennau uchod.

11.2 Mynegwyd pryder nad oedd rhagfynegiadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ar gyfer llifogydd. Ymatebodd RhA Jones fod llifogydd yn anodd ei ragweld ac er y bu gostyngiad mewn tanau gwyllt eleni, bu cynnydd mewn llifogydd oherwydd y tywydd garw. Roedd y tîm cynllunio yn gwneud gwaith ar sut y gellid rhagweld hyn yn well yn y dyfodol.

11.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad adborth; a**
**ii) Chymeradwyo Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029, Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024-25 a'r Asesiad cysylltiedig o’r Effaith ar Gydraddoldeb i'w cyhoeddi.**

## 12 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT

12.1 Cyflwynodd RhA Jones y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft i'r Aelodau, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Cadarnhawyd bod y drafft hwn wedi'i gyflwyno i Archwilio Cymru cyn 31 Mai, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth uchod.

12.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2023/24;**
**ii) nodi’r rhaglen waith ar gyfer 2024/25; a**
**iii) chymeradwyo’r fersiwn drafft o’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24.**

**13 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24 A'R CYLCH GWAITH**

5.1 Cyflwynodd y PSTC Helen MacArthur adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol i'r Aelodau (y Bwrdd) oedd yn rhoi manylion gwaith y Bwrdd yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Nodwyd bod yr adroddiad blynyddol ynghlwm yn atodiad 1.

13.2 Ymhellach, gofynnwyd am gymeradwyaeth yr Aelodau i gynyddu aelodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol. Nodwyd y newidiadau arfaethedig hyn yn y Cylch Gorchwyl sydd wedi'i ddiweddaru yn atodiad 2.

13.3 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol am eu gwaith yn y maes pwysig hwn.

13.4 **PENDERFYNWYD:**

- **i) cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2023/24; a**
- **ii) chymeradwyo cylch gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol, gan nodi'r cynnydd yn yr aelodaeth i 10 aelod.**

**14 DIWEDDARIAD AR BROSES UNIONI GWAHANIAETHU AR SAIL OEDRAN**

14.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur y papur ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, gyda'r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y newidiadau statudol i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn dilyn heriau cyfreithiol sylweddol, a elwir yn fwy cyffredin yn ymarferion unioni pensiwn McCloud ac O'Brien (Matthews 2).

14.2 Gofynnodd un o'r Aelodau pwy oedd yn ysgwyddo'r risg ariannol mewn perthynas â'r mater cymhleth hwn. Cadarnhaodd y PSTC MacArthur fod y risg ariannol yn y pen draw yn cael ei ysgwyddo gan y gronfa bensiwn a bod amcangyfrif o'r ôl-ddyledion ar gyfer yr ail ddewis ac effaith y gwahaniaethu ar sail oedran wedi'i gynnwys ym mhrisiad y Cynllun Pensiwn ac y byddai'n cael ei adlewyrchu yng nghyfraniadau'r gweithwyr. Derbyniai'r Gwasanaeth arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol er mwyn sicrhau bod y gost yn aros yn niwtral i'r Gwasanaeth.

14.3 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi'r gofynion statudol i weithredu'r newidiadau a wnaed i reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân; a**
- **ii) Chymeradwyo'r cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gyfer rheoli achosion y mae'r deddfau treth yn effeithio arnynt.**

## 15 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIAD MEWNOL 2023/24

15.1 Cyflwynodd y PSTC HM y papur ar Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol 2023/24. Dywedwyd wrth yr Aelodau ei bod yn ofynnol o dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhan 3 5. (2) i'r Awdurdod gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system Reoli Mewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

15.2 Ymhellach, mae Safonau Archwilio Mewnol 2017 CIPFA i'r Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd i'r Awdurdod ynglŷn â'r holl system reolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu corfforaethol.

15.3 Mae'r adroddiad yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 ac yn cynnwys y datganiad sicrwydd yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024.

15.4 Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio eisoes wedi craffu ar y papur hwn a'i fod wedi ei gefnogi i'w gymeradwyo.

15.5 Nododd y Trysorydd mai'r unig argymhelliad oedd o unrhyw bwys yn yr adroddiad oedd seiberddiogelwch; fodd bynnag, roedd yr Awdurdod yn cymryd camau i wella amddiffynfeydd seiber y Gwasanaeth.

15.6 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.**

## 16 DATGANIAD CYFRIFON 2023/24

16.1 Esboniodd y Trysorydd mai pwrpas y papur hwn oedd cadarnhau'r sefyllfa alldro diwedd blwyddyn ar gyfer 2023/24 a chyflwyno'r Datganiad Cyfrifon heb eu harchwilio ar gyfer 2023/24. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r amserlen ar gyfer archwilio'r datganiad cyfrifon hefyd.

16.2 Nodwyd bod yr adroddiad hefyd yn rhoi cadarnhad ynglŷn â materion ariannol eraill sy'n ymwneud â 2023/24, gan gynnwys sefyllfa'r Awdurdod o ran cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, dileu dyledion drwg, a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y flwyddyn gyfan.

16.3 Tynnwyd sylw'r Aelodau at baragraff 11 yr adroddiad, a nodwyd y byddai'r Cadeirydd yn llofnodi fersiwn derfynol y Datganiad, ar ôl ei archwilio ac ar ran yr Awdurdod, a fyddai wedyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod dilynol i'w gymeradwyo'n ffurfiol. Felly, fel arfer da,

cadarnhaodd y papur hwn y sefyllfa gyllidol ar 31 Mawrth 2024 er mwyn gallu cyfeirio ati.

16.4 Tynnodd y Trysorydd sylw ymhellach fod y papur hefyd wedi cadarnhau safle cronfeydd wrth gefn diwedd blwyddyn yr Awdurdod, a dileu deunaw dyled ddrwg, sef cyfanswm o £1,492 yn y flwyddyn. Er bod Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru wedi caniatáu goddefgarwch am gyfnod estynedig ers Covid, roedd swyddogion Cyllid yr Awdurdod wedi ymdrechu'n wirfoddol i gadw at amserlen wreiddiol y rheoliadau ar gyfer cau cyfrifon ac wedi llwyddo i wneud hynny. Diolchwyd i Helen Howard, y Pennaeth Cyllid a Chaffael sydd bellach wedi ymddeol, am ei gwaith cydwybodol hi a'i thîm.

16.5 Nodwyd bod paragraff 4 ar dudalen 266 y pecyn yn dangos bod gwariant gwirioneddol ar gyfer 2023/24 yn £44.3m yn erbyn cyllideb o £44.4m.

16.6 Fel yr eglurwyd ym mharagraff 5, roedd y gyllideb gyfalaf o £6.532m ar gyfer 2023/24 yn cynnwys £3 miliwn i brynu tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig, y disgwylir iddi gael ei chwblhau yn ystod 2024/25. Ymestynnwyd gweddill y rhaglen gyfalaf ac roedd blaenoriaeth i aros o fewn y gyllideb. Gofynnwyd i Aelodau nodi bod y gwariant yn £2.2m erbyn diwedd y flwyddyn, ond gofynnwyd i £3.9m gael ei ddwyn ymlaen. Roedd y Pwyllgor Archwilio wedi cael eu diweddaru am hyn yn eu cyfarfod ar 17 Mehefin, ac roedd Gweithgor y Gyllideb yn craffu ar ddileu dyledion.

16.7 Tanwariant 'ymylol' o £94mil oedd y sefyllfa derfynol. Nodwyd y prif benawdau gwariant refeniw a'r sefyllfa alldro drafft yn y tabl o dan baragraff 14 ar dudalen 268 y pecyn. Roedd arbedion o swyddi gweigion wedi lliniaru'r setliad cyflog cenedlaethol uwch na'r disgwyl.

16.8 **PENDERFYNWYD:**

- **i) nodi'r sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf heb ei harchwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, gan gynnwys y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, fel y nodwyd yn yr adroddiad;**
- **ii) nodi'r sefyllfa o ran mantolen 31/03/2024 heb ei harchwilio;**
- **iii) derbyn a nodi'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2023/24, sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A;**
- **iv) nodi'r dangosyddion darbodus fel yr oeddent ym mhedwerydd chwarter 2023/24; a**
- **v) nodi'r dileadau a gymeradwywyd gan y Trysorydd, yn unol â'r rheoliadau ariannol.**

**17 PENODI SWYDDOG PRIODOL AR GYFER A.36 DEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000**

17.1 Eglurodd y Clerc mai pwrpas y papur hwn oedd gofyn i'r Aelodau benodi'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc fel y swyddogion priodol, a elwir yn “berson cymwys”, er mwyn gallu gweithredu’r eithriad o dan adran 36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (“DRhG”)

17.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) dynodi'r Prif Swyddog Tân a'r Clerc fel y personau cymwysedig at ddiben gweithredu’r eithriad yn adran 36 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.**

**18 MATERION BRYS**

18.1 Nid oedd materion brys i'w codi.

**RHAN II**

**19 ADOLYGIAD DIWYLLIANNOL**

19.1 Cadarnhaodd y PST, yn dilyn ymarferiad caffael helaeth, fod cwmni o'r enw Crest Consultancy wedi'i gyflogi i gynnal yr adolygiad diwylliant annibynnol i Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru. Byddai Crest yn cyflenwi gwasanaeth cwbl ddwyieithog.

19.2 Mae Crest yn gwmni â phrofiad helaeth o edrych ar thema diwylliant a sut roedd Gwasanaethau Tân ac Achub eraill wedi gwneud eu gwaith yn hyn o beth.

19.3 Byddai cyfarfod gyda Crest yn cael ei gynnal ddydd Mercher 17 Gorffennaf, pan fyddai brîff strategol yn cael ei nodi. Cafodd yr holl ddogfennau y gofynnwyd amdanynt eu cyflwyno iddynt ac ym mis Awst, byddai arolwg staff annibynnol yn cael ei anfon allan. Byddai cyfweliadau staff a grwpiau ffocws yn cael eu cynnal ym mis Hydref/Tachwedd 2024 er mwyn i Crest ganfod barn staff tuag at ddiwylliant dros y tair blynedd diwethaf. Mae'n debygol y gofynnir i'r Aelodau gymryd rhan yn yr agwedd hon ar yr adolygiad.

19.4 Byddai adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2025.

19.5 Gofynnodd un Aelod a fyddai Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw gyfraniad ariannol tuag at yr adolygiad hwn gan fod y cais i'w gynnal wedi dod ganddyn nhw. Cadarnhaodd y PST na fyddai unrhyw gyfraniad ariannol gan Lywodraeth Cymru.

## 20 CANLYNIAD Y CYN-WRANDAWIAD GAN Y TRIBIWNLYS CYFLOGAETH

20.1 Cynghorwyd yr Aelodau y gallai'r eitem hon fod yn destun apêl o hyd ac y dylent drin y mater yn gyfrinachol.

20.2 Rhoddwyd rhywfaint o gefndir i'r eitem hon i'r Aelodau a dywedwyd wrthynt fod cwyn wedi'i chyflwyno yn erbyn uwch swyddog yn 2023. Bryd hynny, cafwyd ymchwilydd allanol i gynnal ymchwiliad annibynnol a hysbyswyd Llywodraeth Cymru oherwydd lefel uchel y swyddog dan sylw.

20.3 Trafodwyd canlyniad yr ymchwiliad gyda'r ddau weithiwr ac ym mis Rhagfyr 2023, cychwynnodd yr achwynydd achos tribiwnlys cyflogaeth gan eu bod yn parhau i fod yn anfodlon, er gwaethaf yr ymchwiliad annibynnol. Yna daeth hyn yn fater o ddiddordeb cyhoeddus oherwydd penodi'r uwch swyddog i rôl â phroffil uchel yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, a'r sylw yn y cyfryngau wedi hynny.

20.4 Roedd canlyniad y gwrandawiadau ar gyfer Tribiwnlys Cyflogaeth wedi dod i'r fei ac roedd y dyfarniad yn y parth cyhoeddus. Derbyniwyd safbwynt y Gwasanaeth bod y rhan fwyaf o'r honiadau wedi dyddio ac yn annhebygol o lwyddo. Byddai dau honiad bellach yn mynd yn eu blaenau, a byddai'r rhain yn mynd i wrandawiad rhagarweiniol ynghyd â dwy gŵyn arall yn ymwneud â'r modd y rheolwyd yr achwyniad.

20.5 Roedd y gweithiwr dan sylw yn ôl yn y gweithle ac yn cael ei gefnogi gan y Gwasanaeth.

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 21 Hydref 2024.

**Daeth y cyfarfod i ben: 11:43**